



Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddMCD@Cynulliad.Cymru

08/10/2015

Bil Cymru Drafft

Annwyl Aelodau

Diolch am eich llythyr diweddar yn gwahodd Comisiynydd y Gymraeg i gynnig sylwadau ar y Bil Cymru drafft. Gofynnwyd yn eich llythyr am sylwadau ynghylch yr effaith y bydd y Bil yn ei chael ar y meysydd lle mae gennyf gyfrifoldebau statudol ac ar ddatblygiad swydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn y dyfodol. Cyflwynaf y sylwadau isod mewn perthynas â'r materion hynny.

Cefndir

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd. Ar yr un pryd mae'r Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygyymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Mae'r Comisiynydd yn darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Gweithredu argymhellion Silk

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd y Comisiwn Silk adroddiad ar ail ran ei waith, 'Grymuso a Chyfrifoldeb: Pwerau deddfwriaethol i gryfhau Cymru'. Ar sail tystiolaeth a ddarparwyd gennyf, argymhellwyd yn adran 12.2.3 yr adroddiad hwnnw

'Credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru adolygu pob un o'r meysydd a grybwyllwyd gan y Comisiynydd gyda golwg ar ddiwygio'r gyfraith i roi statws cyfartal i'r Gymraeg. Yn fwy cyffredinol, credwn y dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru asesu'n systematig sut y defnyddir y Gymraeg ar draws y llywodraeth ac yna cadw golwg ar y sefyllfa'n barhaus.'

Seiliwyd yr argymhelliad hwn ar dystiolaeth a rannwyd gennyf nad yw nifer o ddeddfau a basiwyd gan San Steffan yn cydnabod statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru nac yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg. Amgaeaf restr o'r deddfau hynny. Mae'r deddfau dan sylw yn rhwystro defnyddio'r Gymraeg ar adegau pwysig ac adegau anodd ym mywydau unigolion, adegau lle fo rhwystr i ddefnyddio iaith gyntaf yn medru effeithio ar les unigolion.

Wrth ymateb i ail adroddiad Silk ym mis Chwefror eleni, nododd Swyddfa Cymru o fewn ei bapur gorchymyn 'Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru' gonsensws gwleidyddol o blaid gweithredu'r argymhelliad uchod. Nid yw'r argymhelliad wedi ei ymgorffori o fewn y Bil Cymru drafft a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac nid yw'n eglur sut arall y bwriedir gweithredu'r argymhelliad hwn, na phryd y bwriedir gwneud hynny. Rwyf wedi gohebu ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ddiweddar am y mater hwn.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Atodlen 7A y Bil Cymru drafft yn rhestru materion sydd wedi eu cadw yn ôl ('reserved matters'). Un o'r materion hynny yw 'cyfleoedd cyfartal' (Atodlen 7A, Adran N1). Diffinnir 'cyfleoedd cyfartal' yn Adran honno'n Bil drafft fel a ganlyn

"Equal opportunities" means the prevention, elimination or regulation of discrimination between persons on grounds of sex or marital status, on racial grounds, or on grounds of disability, age,



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

sexual orientation or social origin, or of other personal attributes, including beliefs or opinions, such as religious beliefs or political opinions, but not including language¹.

Mae'n bosibl bod y geiriau sydd wedi eu hamlygu ym mrawddeg olaf y cymal wedi eu cynnwys gan bod y Gymraeg yn fater sydd wedi ei ddatganoli ac er mwyn osgoi effeithio ar hynny. Credaf bod angen ystyried a fedrai'r cymal hwn fod ag oblygiadau eraill, anfwriadol. Er enghraifft, ydy'n bosibl y gallasai'r cymal hwn rwystro Llywodraeth y DU rhag cymryd camau er mwyn ymatal, dileu neu reoleiddio camwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail y sail eu bod yn siarad Cymraeg neu iaith arall? Hefyd, a fedrai diffinio 'cyfleoedd cyfartal' fel hyn mewn deddfwriaeth, hynny yw eithrio iaith yn y diffiniad, fod ag unrhyw oblygiadau o ran sut y diffinnir 'cyfleoedd cyfartal' mewn cyfreithiau eraill, cyd-destunau eraill neu'n fwy cyffredinol? Ystyriaf bod angen meddwl yn ofalus wrth graffu ar y Bil hwn ynghylch sut y mae'r Bil drafft yn eithrio y Gymraeg o'r diffiniad o 'gyfleoedd cyfartal'.

Hyderaf y bydd y sylwadau hyn o gymorth i'r pwyllgor wrth graffu ar y Bil.

Yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

¹ Amlygwyd gan awdur y papur hwn

Cyfreithiau'r DU sy'n rhwystro defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru

Mae'r **Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953** yn caniatáu cofrestru yn Saesneg neu'n ddwyieithog yng Nghymru ond nid yn Gymraeg. Yn ogystal, ni chaniateir darparu tystysgrifau Cymraeg neu ddwyieithog i bobl sy'n byw yng Nghymru ond sydd yn gorfod teithio dros y ffin i Loegr i roi genedigaeth neu i gofrestru marwolaeth.

Mae'r **Rheoliadau Cofrestru Priodasau (Iaith Gymraeg) 1999** yn datgan bod modd cofrestru priodas yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg, ar yr amod bod y partiön yn dewis gwneud hynny a bod y person sy'n cofrestru'r briodas yn deall ac ysgrifennu Cymraeg. Golyga hynny na chaniateir cofrestru priodas yn Gymraeg ac yn Saesneg lle nad yw'r Cofrestrydd yn siarad Cymraeg. Mae'r rheoliadau hyn yn rhwystro darparu tystysgrifau Cymraeg yn unig yng Nghymru.

Mae **Rheoliadau Priodasau Cyplau Un Rhyw (Trosiant Partneriaeth Sifil) 2014** yn gwahardd cofrestru priodas yn y Gymraeg yn yr un ffordd ag mae **Rheoliadau Cofrestru Priodasau (Iaith Gymraeg) 1999** yn gwneud hynny.

Mae'r **Rheoliadau Amlogiad 2008 (Lloegr a Chymru)** yn rhagnodi ffurflenni i'w defnyddio gan aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno trefnu gwasanaeth amlogi. Rhagnodwyd ffurflenni Saesneg yn unig. O ganlyniad, ni chaniateir defnyddio ffurflenni Cymraeg neu ddwyieithog.

UK Laws that prevent the use of Welsh in Wales

The **Registration of Births and Deaths Act 1953** allows registration in English or bilingually in Wales, but not in Welsh. Also, the provision of Welsh or bilingual certificates is prohibited for people living in Wales but who have to travel over the border into England to give birth or to register a death.

The **Registration of Marriages (Welsh Language) Regulations 1999** state that it is possible to register a marriage in Welsh and in English, on condition that the parties choose to do so and that the person registering the marriage understands Welsh and can write in Welsh. This means that couples are not allowed to register a marriage in Welsh and in English where the registrar does not speak Welsh. The regulations prevent the provision of Welsh-only certificates in Wales.

The **Marriage of Same Sex Couples (Conversion of Civil Partnership) Regulations 2014** prohibit registration of a marriage in Welsh in the same way as the **Registration of Marriages (Welsh Language) Regulations 1999**.

The **Cremation Regulations 2008 (England and Wales)** prescribe forms to be used by members of the public wishing to arrange a cremation service. Forms were prescribed in English only. As a result, the use of Welsh or bilingual forms is not permitted.